

Ynglŷn â'r FSCS

Mae'r FSCS yn diogelu defnyddwyr pan fydd cwmnïau gwasanaethau ariannol yn methu [neu'n mynd yn fethdalwyr]. Dyma'r cynllun iawndal ar gyfer cwsmeriaid cwmnïau gwasanaethau ariannol awdurdodedig yn y Deyrnas Unedig. Ers 2001 rydym wedi helpu miliynau o bobl a thalu biliynau o bunnoedd.

Rydym yn gallu rhoi iawndal i gwsmeriaid os bydd cwmni wedi stopio masnachu neu os nad oes gan y cwmni ddigon o asedau i dalu hawliadau yn ei erbyn. Rydym yn galw hyn yn 'yn ddiffygiol'.

Er mwyn cael gwybod a yw'r cwmni eisoes yn ddiffygiol, ewch i'n [tudalen chwilio am gwmnïau diffygiol](#). Gallwch hawlio hyd yn oed os nad yw'ch cwmni wedi ei restru.

Beth sy'n gynnwysedig gennym?

Rydym yn cynnwys busnes a weithredir gan gwmnïau a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA).

Yr FCA a'r PRA yw cyrff goruchwyllo ariannol annibynnol y Deyrnas Unedig a sefydlwyd gan y llywodraeth i reoleiddio gwasanaethau ariannol y Deyrnas Unedig ac i ddiogelu hawliau defnyddwyr. Gallwn gynnwys cwmnïau Ewropeaidd sydd wedi eu hawdurdodi gan reoleiddwyr yn eu gwlad wreiddiol sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r FSCS yn diogelu'r canlynol:

- **blaendaliadau,**
- **busnes buddsoddi,**
- **cyllid cartref** (i fusnes o 31 Hydref 2004),
- **polisiâu yswiriant,** a
- **broceriaid yswiriant** i fusnes o 14 Ionawr 2005. Rydym hefyd yn diogelu yswiriant teithio cysylltiedig pan fydd cwmnïau fel cwmnïau teithio a darparwyr gwyliau yn gwerthu polisi ochr yn ochr â gwyliau neu deithiau cysylltiedig i fusnes o 1 Ionawr 2009.

Sefydlwyd y Cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a daeth yn weithredol ar 1 Rhagfyr 2001. Rydym yn dal i dalu am hawliadau ers cyn y dyddiad hwn.

Mae'r FSCS am ddim i ddefnyddwyr ac yn annibynnol oddi wrth y llywodraeth a'r diwydiant ariannol.

A oes cyfyngiad ar y diogeliad?

Yr FCA a'r PRA sy'n rheoli ein diogeliad ac yn gosod y [cyfyngiadau](#) ar iawndal a'n rheolau. Mae rheolau'r PRA yn ymdrin â hawliadau sy'n ymwneud â blaendaliadau a pholisiâu yswiriant bywyd ac yswiriant cyffredinol. Mae'r rheolau hyn yn adrannau Diogelu Talwr Blaendal a Diogelu Deiliaid Polisi [Llyfr Rheolau'r PRA](#).

Mae rheolau'r FCA yn ymdrin â hawliadau sy'n gysylltiedig â mathau eraill o fusnes yr ydym wedi eu crybwyll uchod a gellir eu gweld yn yr adran lawn o [Lawlyfr yr FCA](#).

Nid yw'r FSCS yn weithredol ar Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw, ond mae rhai eithriadau yn bodoli ar gyfer hawliadau yswiriant.